

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2018/19

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Nicola Roberts

Parti: Plaid Cymru

Ward: Canolbarth Môn

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Crynodeb o Bresenoldeb
Cyngor Sir Ynys Môn	Manylion ar wefan y Cyngor: Presenoldeb
Pwyllgor Buddsoddi A Chontractau	
Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (Cadeirydd)	
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	
Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio	
Pwyllgor Trwyddedu (Cadeirydd)	
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn	
Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y gyrff allanol canlynol:

Corff allanol	Crynodeb o rôl a chyfraniad
Canolfan Gyngori ar Bopeth Ynys Môn	Gweler: https://www.citizensadvice.org.uk/local/ynys-mon/

Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	
Llywodraethwr - Ysgol Gynradd Talwrn	
Llywodraethwr - Ysgol Gynradd Y Graig, Llangefni	http://www.ysgolygrraig.co.uk/
Pencampwr Cydraddoldeb	

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwy'n parhau i fod yn llywodraethwr yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn, rhywbeth yr ydw i'n ei fwynhau. Rwy'n Gynghorydd Tref yn Llangefni ac yn ceisio mynychu cymaint â phosib o fy nghyfarfodydd Cyngor Cymuned sef Llanddyfnan, Bodffordd, Gwalchmai a Bryngwran er yr anhawster eu bod yn cael eu cynnal ar yr un noson. Rwy'n parhau i fynychu a chefnogi cymaint o ddigwyddiadau â phosibl yn fy etholaeth er mwyn ymgysylltu â' gymuned cymaint â phosibl.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n wirfoddolwr brwd gyda Menter Gymdeithasol Llangefni ac wedi cefnogi marchnad Llangefni. Rydw i hefyd wedi bod yn rhan o dîm rhagorol sy'n trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau llwyddiannus. I gyd rwy'n gobeithio sy'n helpu i adfywio Llangefni.

4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining.aspx?UID=268&RPID=500088002&LLL=1>

5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy'n parhau i fod yn aelod gweithgar yn fy ward wrth i mi ddelio ag amrywiaeth o faterion ond rwy'n ceisio peidio â bod yn aelod bwrdd ar is-bwyllgorau a grwpiau llywio yn lleol gan fy mod yn teimlo ei bod yn bwysig fy mod yn aros yn ddiuedd gan fod y gymuned angen llais cryf petai angen pleidlais ar y materion hyn. Rwy'n gobeithio parhau i fod yn eiriolwr effeithiol ar ran fy mhobl.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=268&LLL=1>